Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH ANABLEDDAU DYSGU:

# Swyddi a Gwirfoddoli

**Creu cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli i bobl ag anableddau dysgu.**

**Rydyn ni eisiau gweithio gyda phartneriaid i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i gyflawni'u llawn botensial o ran cyflogaeth a gwirfoddoli. Mae hyn yn cynnwys gwella sgiliau, creu cyfleoedd, a gwella hygyrchedd.**






## DYWEDODD POBL

**Dwi eisiau gwaith sy'n talu er mwyn dangos i bobl a ddywedodd mod i'n methu eu bod nhw'n anghywir."**

---

**"Efallai fod angen ychydig mwy o gefnogaeth arna i, ond dwi'n gallu gweithio!"**

---

**Gwrandewch ar y gân 'See Me', yma.**

## BETH SY'N BWYSIG I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU?

Hoffai pobl ag anableddau dysgu fod yn fwy gwybodus am swyddi a chyfleoedd gwirfoddoli, a chael mwy o ddewisiadau i baru sgiliau â'r pethau maen nhw'n angerddol drostyn nhw.

Hoffen nhw weld mwy o arian ar gael i gyflogwyr ddarparu cymorth a gwneud addasiadau rhesymol.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn llywio cynlluniau sefydliadau partner.
- Adolygu'r trefniadau presennol i sefydliadau gael mynediad at gyllid i wneud addasiadau rhesymol.
- Archwilio opsiynau i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau sicrhau cyflogaeth neu rolau gwirfoddol.
- Datblygu llwybrau cyflogaeth cefnogol i gynyddu mynediad i wirfoddoli, prentisiaethau ac ati.
- Archwilio opsiynau i wella hysbysebu gwirfoddoli, cyflogaeth a lleoliadau i bobl ag anabledd dysgu.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Gwella dealltwriaeth o'r gofynion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyfleoedd cyflogaeth.
- Mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu sicrhau cyflogaeth / gwirfoddoli.
- Pobl ag anabledd dysgu yn gallu cyflawni'u potensial.